PN00001430

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH)

## Hyfforddwyr

## Y cefndir

Yng Nghymru, mae'n ofyniad statudol i unrhyw un sy'n gwasanaethu fel pennaeth feddu ar y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth

Mae bod yn Hyfforddwr Arweinyddiaeth yn gyfle unigryw i ysbrydoli a chefnogi Penaethiaid y dyfodol ar gyfer Cymru. Mae'r Hyfforddwr Arweinyddiaeth yn hanfodol ac yn ganolog wrth sicrhau llwyddiant y rhaglen ac yn rhan allweddol o gynllunio olyniaeth strategol arweinyddiaeth ysgolion yng Nghymru. Bydd hyfforddwyr yn cael eu gwahodd drwy gais ac yn ymrwymo i sicrhau bod cyfranogwyr yn barod i ddechrau ar rôl pennaeth, yn hyderus yn eu rôl.

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol yr ydym yn eu cadw, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson y gellir ei defnyddio i adnabod y person hwnnw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ddull adnabod.

Fel rhan o'r broses ymgeisio, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu data personol fel enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, ethnigrwydd a dyddiad geni.

Pan ddaw'r wybodaeth i law, Llywodraeth Cymru fydd rheolydd y data.

### Beth ydyn ni'n ei wneud gyda'ch gwybodaeth chi?

Yn ein cylch gwaith fel y rheolydd data, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth a ddaw i law at y dibenion isod. Mae'r dibenion hyn yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi i gyflawni ein tasg gyhoeddus ac wrth arfer ein hawdurdod swyddogol.

1. Y broses ymgeisio:
    - Bydd data personol a ddarperir yn cael eu defnyddio i gysylltu â chi mewn perthynas â'ch cais. Bydd data personol yn cael eu dileu o geisiadau cyn eu rhannu â phanel sifftio.

2. Cynnal y rhaglen o ddydd i ddydd:

   - Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio yn ystod y rhaglen i roi gwybod i chi am y gofynion.
   - Bydd data personol ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu rhannu â Chyngor y Gweithlu Addysg – mae hyn er mwyn sicrhau bod gan yr holl gyfranogwyr fynediad addas at y pasbort dysgu proffesiynol.
   - Bydd cyfeiriadau e-bost hyfforddwyr arweinyddiaeth llwyddiannus yn cael eu rhannu â chyfranogwyr llwyddiannus.
   - Bydd eich manylion personol yn cael eu rhannu â'ch awdurdod lleol neu'ch cyflogwr (os yw'n berthnasol) i'w hysbysu o'ch penodiad fel Hyfforddwr Arweinyddiaeth ar y rhaglen ac er mwyn prosesu taliadau.

3. Dibenion ystadegol ac ymchwil:

   - i ddarparu gwybodaeth, dylanwadu a gwella polisi addysg.
   - i fonitro cyllid a'i dargedu'n effeithiol.
   - i fonitro perfformiad y gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd.
   - i gysylltu â setiau data eraill Llywodraeth Cymru, i lywio polisïau addysg ehangach.

## Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio'ch data?

Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

## Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth bersonol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru bob amser yn cael ei chadw ar weinyddion diogel, a bydd mynediad at y ceisiadau yn cael ei gyfyngu i'r tîm polisi uniongyrchol ac aelodau'r panel sifftio/cyfweld. Bydd y data personol a roddwch yn cael eu storio mewn ffolder dan gyfyngiad. Bydd eich cais yn cael ei rannu gydag aelodau'r panel drwy Objective Connect. Mae hwn yn fan gweithio diogel a phreifat.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Bydd y manylion yn cael eu cadw am 3 blynedd.

## Hawliau unigolion

O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn. Mae gennych yr hawl:

- i gael mynediad at eich data eich hun.
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny.
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar unrhyw brosesu (o dan amgylchiadau penodol).
- I ofyn i'ch data gael eu 'dileu' (o dan amgylchiadau penodol);
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.org.uk

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data a ddarperir gennych fel rhan o'ch cais, neu os ydych yn dymuno arfer eich hawliau drwy ddefnyddio GDPR y DU, cysylltwch â'r tîm isod:

Cyfeiriad e-bost: LeadershipDevelopmentDatblyguArweinyddiaeth@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru